Sefydliad Siartredig y Cyflafareddwyr

GORFFENNAF 2009

Dŵr Cymru
Welsh Water

Cyfeirnod: LAR0012

Trefniadau cyflafareddu y diwydiant dŵr

(Dŵr Cymru Cyf)
Rheolau (1990)

1. (i) Sefydlwyd y Trefniadau hyn ('y Trefniadau') gan Sefydliad Siartredig y Cyflafareddwyr ar gyfer Dŵr Cymru.
(ii) Maent yn darparu dull cyflafareddu anffurfiol a rhad fel modd o ddatrys anghydfodau rhwng cwsmeriaid a Dŵr Cymru, y gellir eu datrys trwy gyflafareddiad o dan amodau Deddf Diwydiant Dŵr 1991. Os yn dymuno gwneud hynny, gall cwsmer hefyd gyfeirio unrhyw anghydfod mewn perthynas â hawl a roir iddo/i gan y Ddeddf i ddwyn achos mewn llys.
(iii) Bydd cyflafareddwr a benodir o dan y Trefniadau yn pennu anghydfodau wrth gyfeirio at gyflwyniadau a dogfennau gan y partïon. Gan y bwriadwyd y Trefniadau i fod yn ddull rhad, nid oes darpariaeth ar gyfer gwrandawiadau llafar.
(iv) Gweinyddir cyflafareddiadau o dan y Trefniadau yn annibynnol gan y Sefydliad a bydd yn penodi cyflafareddwyr yn unol â'r Trefniadau o dan reolaeth unigol a dilyffethair y Sefydliad.
(v) Nid oes raid i gwsmer ddefnyddio'r Trefniadau ar gyfer unrhyw anghydfod cymwys, ond os yn gwneud hynny bydd yn gorfod derbyn penderfyniad y cyflafareddwr ac ni fydd wedyn yn gallu dwyn achos llys mewn cysylltiad â'r un anghydfod, oni bai ei bod yn amhosibl datrys yr anghydfod yn iawn o dan Reolau'r Trefniadau, pan fydd Rheol 8(ix) yn gymwys.
2. (i) Caniateir trin anghydfod drwy gyfrwng y Trefniadau o dan yr amodau isod:
(a) nid yw'r anghydfod yn trafod swm uwch na £5,000; a
(b) nid yw'r anghydfod yn ymwneud â mater cyfreithiol cymhleth; a
(c) nid yw'r anghydfod fel arall yn anaddas ar gyfer cyflafareddiad ar sail dogfennau yn unig; a
(d) hysbyswyd y Cwmni o'r anghydfod ymlaen llaw; a
(e) gwneir cais am gyflafareddiad o dan y Trefniadau o fewn 12 mis o'r cwsmer yn derbyn yr ymateb olaf ar y mater gan y Cwmni (ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol); a
(f) nid oes achos llys yn gysylltiedig â'r anghydfod wedi dechrau.
(ii) Ble nad yw'r cais am arian yn uwch na £1,000 ac y bodlonir amodau Rheol 2 (i) (b) - (f), bydd y Cwmni yn cytuno i gyflafareddiad ym mhob achos. Ble mae'r cais yn uwch na £1,000 ac y bodlonir amodau Rheol 2 (i) (b)-(f), gall y Cwmni gytuno i gyflafareddiad ond mae'n cadw'r hawl i beidio â gwneud hynny. Ble mae'r cais fel arall tu allan i sgôp y Trefniadau (gweler Rheol 2 (i) (a)-(f)), ni fydd raid i'r Cwmni gytuno i gyflafareddiad.
(iii) Nid yw'r Trefniadau yn gymwys i anghydfodau'n ymwneud â cheisiadau neu gyfrifon gwasanaethau dŵr a/neu carthffosiaeth neu wasanaethau eraill sy'n destun Cynllun Prisiau o dan adran 143 o Ddeddf 1991.

3. Nid yw cais i gyflafareddu anghydfod o dan y Trefniadau yn rhyddhau cwsmer o unrhyw gyfrifoldeb ganddo/i i dalu i'r cwmni unrhyw symiau eraill sy'n ddyledus a ddim yn destun anghydfod.
4. Bydd ffi gofrestru yn daladwy gan y ddau barti am y Trefniadau cyflafareddu. Bydd yn cyfrannu at gostau gweinyddol y Sefydliad oni ad-delir o dan Reolau 6(ii), 8(ix) neu 12.

Dechrau cyflafareddu

5. (i) Os am gyfeirio anghydfod gyda'r Cwmni i'w gyflafareddu o dan y Trefniadau, rhaid iddo/i ('yr Hawliwr') wneud cais ar y ffurflen gais briodol, a gedwir gan y Sefydliad a'r cwmni, a thalu'r ffi gofrestru a nodir ar y ffurflen.
(ii) Rhaid i'r Hawliwr lenwi a dychwelyd y ffurflen gais a'r ffi i'r cwmni, fydd yn ei llofnodi ac yn ei throsglwyddo i'r Sefydliad ynghyd â ffioedd yr Hawliwr. Bydd llofnodi'r ffurflen gais gan y Cwmni yn ei ddwyn i mewn i'r achos fel Gwrthapelydd yn y cyflafareddiad.
6. (i) Bydd cyflafareddu yn dechrau at ddibenion y Rheolau hyn pan fydd y Sefydliad wedi derbyn y ffurflen gais wedi'i llofnodi gan y ddau barti. Bydd y Sefydliad yn anfon nodyn i'r ddau barti i'w hysbysu o dderbyn y cais. Bydd copi'r Hawliwr o'r hysbysiad yn cynnwys ffurflen datgan cais.
(ii) Os na dderbynnir y cais, am unrhyw reswm, fe ddychwelir y ffioedd cofrestru a bryd hynny gall yr Hawliwr fynd â'r achos i lys.

Camau Dilynol

7. Cyffredinol
Seilir y cyflafareddiad ar ddogfennau yn unig. Yn amodol ar unrhyw gyfarwyddiadau gan y cyflafareddwr, dilynir y Trefniadau isod:-
(i) Bydd rhaid i'r Hawliwr, o fewn chwe wythnos o dderbyn y ffurflen datgan cais, anfon dau gopi o'r ffurflen gais a'r dogfennau atodedig at y Sefydliad (ni fydd yr Hawliwr, heb ganiatâd y cyflafareddwr, yn gallu hawlio swm uwch na'r un a nodwyd ar y ffurflen gyflafareddu).
(ii) Bydd y Sefydliad yn anfon copi o'r dogfennau cais i'r Gwrthapelydd, fydd yn gorfod, o fewn chwe mis o dderbyn y dogfennau, anfon dau gopi o'i amddiffyniad ysgrifenedig at y Sefydliad (yn cynnwys unrhyw wrthgais mewn perthynas â'r anghydfod), ynghyd ag unrhyw ddogfennau atodol.
(iii) Bydd y Sefydliad yn anfon copi o'r dogfennau amddiffyn at yr Hawliwr, fydd â hawl i anfon at y Sefydliad (dau gopi) unrhyw sylwadau ysgrifenedig ar y dogfennau amddiffyn o fewn tair wythnos o'u derbyn. Rhaid cyfyngu'r fath sylwadau i bwyntiau'n codi o'r amddiffyn, ac ni allant gyflwyno unrhyw faterion newydd yn gysylltiedig â'r cais.
(iv) Ble mae'r partïon yn cytuno i gyflafareddiad ar sail dogfennau Cymraeg ac nid yw'r cyflafareddwr a benodir yn siarad Cymraeg, bydd yn trosglwyddo dadleuon a dogfennau atodol y partïon i'w trosi gan gyfieithydd.

(v) Bydd Llywydd neu is-Lywydd y Sefydliad, ar adeg addas ym marn y Sefydliad, yn penodi cyflafareddwr unigol i bennu'r anghydfod a bydd y Sefydliad yn hysbysu'r partïon o'i benodiad.
(vi) Bydd y cyflafareddwr yn gwneud ei benderfyniad wrth gyfeirio at ddogfennau'r partïon ac yn trosglwyddo ei benderfyniad i'r Sefydliad i'w gyhoeddi.
(vii) Nodir rhesymau'r cyflafareddwr, neu fe gyfeirir atynt, yn ei benderfyniad.
(viii) Ni fydd y penderfyniad yn cynnwys unrhyw gyfarwyddiadau o ran talu llog, ond wrth bennu swm i'w dalu gall y cyflafareddwr, o dan amgylchiadau addas, ystyried unrhyw oedi gan un o'r partïon wrth ddelio â'r cwyn ac unrhyw ddiffyg ymdrech i setlo'r mater yn foddhaol.
(ix) Ble gweithredir y cyflafareddiad yn Gymraeg, fe gyhoeddir y penderfyniad yn Gymraeg a Saesneg.
(x) Bydd y Sefydliad yn cyhoeddi'r penderfyniad wrth anfon copïau i'r ddau barti.
(xi) Oni nodir fel arall yn y penderfyniad, rhaid talu unrhyw arian dyledus o fewn tair wythnos o anfon y penderfyniad i'r partïon. Gwneir y taliad yn syth gan y parti cyfrifol i'r parti dyledus, ac nid drwy'r Sefydliad. Cyfrifoldeb y partïon yw gweithredu'r penderfyniad ac nid yw'r Sefydliad yn gallu cynorthwyo.
(xii) Os bydd unrhyw barti wedi anfon dogfennau gwreiddiol at y Sefydliad i gefnogi ei gais, gall y parti hwnnw, o fewn chwe wythnos o gyhoeddi'r penderfyniad, ofyn am ddychweliad y dogfennau hynny. Yn amodol ar hynny, cedwir papurau'r achos gan y Sefydliad a'u gwaredu maes o law.

Ychwanegol

8. (i) Gall y cyflafareddwr, drwy'r Sefydliad, ofyn am ddogfennau/gwybodaeth bellach y mae'n ystyried bydd yn ei helpu gyda'i benderfyniad. Os na threfnir y dogfennau/gwybodaeth ar gyfer y Sefydliad o fewn yr amser penodol, bydd y cyflafareddwr yn parhau â'i benderfyniad ar sail y dogfennau a gyflwynwyd eisoes. Os darperir y dogfennau/gwybodaeth, trefnir copïau ar gyfer y parti arall, gan roi cyfle iddo sylwi arnynt o fewn amser a bennir gan y Sefydliad.
(ii) Ble bydd hynny'n ddymunol ym marn y cyflafareddwr, gall ymweld â'r lleoliad perthnasol. Bydd y partïon yn rhoi unrhyw gymorth a chyfleusterau angenrheidiol er galluogi'r cyflafareddwr i gynnal ei archwiliad.
(iii) Ble'n addas, gall y cyflafareddwr eistedd gydag un neu ragor o gynghorwyr technegol annibynnol a benodir gan y Sefydliad pan yn ystyried y dogfennau a gyflwynwyd iddo.

(iv) Ble, ym marn y cyflafareddwr, bydd archwiliad annibynnol o'r mater yn ddymunol, fe benodir archwiliwr annibynnol gan y Sefydliad i wneud y fath archwiliad a darparu adroddiad ysgrifenedig. Bydd y partïon yn rhoi unrhyw gymorth a chyfleusterau angenrheidiol er galluogi'r archwiliwr i gynnal ei archwiliad a bydd y Sefydliad yn dosbarthu copïau o'i adroddiad i'r partïon, fydd wedyn yn cael 14 diwrnod i sylwi arno.
(v) Os na fydd yr Hawliwr yn cyflwyno ei gais o fewn yr amser penodol a ddim yn gwneud hynny o fewn pythefnos ar ôl i'r Sefydliad ei hysbysu o'i fethiant, fe gymrir bydd wedi dileu ei gais o dan y Trefniadau ac ni weithredir y cyflafareddiad.
(vi) Os na fydd y Gwrthapelydd yn darparu ei amddiffyniad o fewn yr amser penodol a ddim yn gwneud hynny o fewn pythefnos ar ôl i'r Sefydliad ei hysbysu o'i fethiant, yna, yn amodol ar unrhyw gyfarwyddiadau gan y cyflafareddwr, bydd yn gwneud penderfyniad ar yr anghydfod wrth gyfeirio at y dogfennau a gyflwynwyd gan yr Hawliwr.
(vii) Os na fydd yr Hawliwr yn darparu unrhyw sylwadau ar amddiffyniad y Gwrthapelydd o fewn yr amser penodol a ddim yn gofyn am estyniad cyn y dyddiad hwnnw, bydd y Sefydliad yn cymryd na fydd yr Hawliwr am wneud y fath sylwadau ac yn parhau â'r achos fel y mae.
(viii) Gall unrhyw barti ofyn am estyniad i unrhyw gyfnod amser o fewn y Rheolau hyn er mwyn darparu dogfennau. Fe hysbysir y parti arall o'r fath gais ac os yn gwrthwynebu gofynnir y cyflafareddwr i roi cyfarwyddyd.
(ix) Os, ym marn y cyflafareddwr, nad yw'r anghydfod yn gymwys o dan y Trefniadau yn unol â Rheol 2, neu fel arall yn amhosibl ei ddatrys yn foddhaol o dan reolau'r Trefniadau hyn, bydd yn hysbysu'r ddau barti o hynny drwy'r Sefydliad. Bryd hynny fe ddilëir penodiad y cyflafareddwr ynghyd â chais y partïon am gyflafareddiad, gan ad-dalu eu ffioedd cofrestru. Yna, bydd yr Hawliwr yn rhydd i fynd ag achos i'r llysoedd.
9. Telir ffioedd y cyflafareddwr a chostau gweinyddol y Trefniadau (yn cynnwys ffioedd cyfieithydd a benodir o dan reol 7(iv) uchod ac unrhyw gynghorydd technegol annibynnol a benodir o dan reol 8(iii) a (iv) uchod) gan y Cwmni.
10. Ffi y cyflafareddwr fydd £200. Ble bydd angen ymweld â'r lleoliad, gall y cyflafareddwr godi treuliau teithio ac eraill hyd at £100.
11. Bydd pob parti yn talu ei gostau ei hun i baratoi a chyflwyno ei gais.
12. Yn amodol ar Reolau 6(ii) ac 8(ix), mae disgresiwn gan y cyflafareddwr i gynnwys yn ei benderfyniad unrhyw gyfarwyddiadau bydd yn ystyried yn addas o ran ad-dalu unrhyw barti gan y llall o'i ffi gofrestru.

Amrywiol

13. Bydd cyfraith Cymru a Lloegr yn gymwys i bob cyflafareddiad o dan y Trefniadau.

14. Mae'r Sefydliad yn cadw'r hawl i benodi cyflafareddwr arall os bydd y cyflafareddwr gwreiddiol yn marw neu'n analluog neu am unrhyw reswm yn methu delio'n brydlon â'r anghydfod. Fe hysbysir y partïon o'r penodiad newydd.

15. Mae penderfyniadau o dan y Cynllun yn derfynol a'r partïon yn rhwymedig iddynt. Yn amodol ar hawl parti i ofyn y Sefydliad i dynnu sylw'r cyflafareddwr at unrhyw gamgymeriad neu esgeulustra y mae ganddo hawl i'w gywiro, nid yw'r Sefydliad na'r cyflafareddwr yn gallu cynnal gohebiaeth ynglŷn â'r penderfyniadau a wneir o dan y Trefniadau.

16. Darperir hawliau cais ac apêl (os o gwbl) i'r llysoedd fel o dan y Deddfau Cyflafareddu perthnasol, cyn belled:

(i) Na fydd darpariaethau costau arbennig y Trefniadau yn gymwys i unrhyw gais neu apêl o'r fath;

(ii) Bydd unrhyw barti sy'n gwneud y fath gais neu apêl (ac eithrio cais am hawl i weithredu penderfyniad) yn talu ei gostau ei hun a rhai'r parti arall (yn cynnwys unrhyw gostau ailgychwyn cyflafareddu neu gyflafareddu newydd yn deillio o'r fath weithredu) dim ots beth fydd y canlyniad.

17. Ni fydd y Sefydliad na'r cyflafareddwr yn atebol am unrhyw weithred neu esgeulustra mewn cysylltiad ag unrhyw gyflafareddiad o dan y Rheolau hyn ac eithrio bydd y cyflafareddwr (ond nid y Sefydliad) yn atebol am unrhyw ddrwgweithredu ymwybodol neu fwriadol ar ei ran ei hun.

Sefydliad Siartredig y Cyflafareddwyr

The Chartered Institute of Arbitrators
International Arbitration & Mediation Centre
12 Bloomsbury Square
London WC1A 2LP

ffôn: +44 (0)20 7421 7444
ffacs: +44 (0)20 7404 4023
ebost: info@arbitrators.org
www.arbitrators.org

Cais Cyflafareddu
i: Sefydliad Siartredig y Cyflafareddwyr
(i'w gyflwyno drwy Dŵr Cymru)

1.....
Hawliwr Cyfeiriad .....
ffôn ..... a .....
..... Gwrthapelydd Cyfeiriad .....
ffôn .....

Drwy hyn yn gwneud cais i Sefydliad Siartredig y Cyflafareddwyr i gyfeirio'r anghydfod isod i'w gyflafareddu o dan Reolau & Trefniadau cyfredol y Diwydiant Dŵr (Dŵr Cymru) i'w benderfynu gan gyflafareddwr a benodir at y diben hwnnw gan y Sefydliad.

2. Mae'r anghydfod wedi codi mewn cysylltiad â'r isod:
.....
.....

(NB: Dim ond amlinelliad sydd angen fan hyn er mwyn i bob parti nodi'r anghydfod. Fe ofynnir i'r Hawliwr gyflwyno cais manwl cyn gynted ag y derbynnir y cais cyflafareddu gan y Sefydliad).

3. Y swm (os o gwbl) a hawlir (£ Sterling) £..... a'r swm (os o gwbl) gan y gwrthapelydd (£ Sterling) £.....
4. Rydym ni, y partïon i'r cais hwn, wedi derbyn rheolau cyfredol y Trefniadau. Rydym yn cytuno i'w dilyn ac i dderbyn penderfyniad y cyflafareddwr.
5. Amgaewyd siec/archeb bost am £..... * ar gyfer ffi gofrestru'r hawliwr, a siec/archeb bost am yr un swm ar gyfer ffi gofrestru'r gwrthapelydd.

Llofnod ..... Dyddiad .....
(Hawliwr)
Llofnod ..... Dyddiad .....
(Gwrthapelydd)

*Dyma'r ffioedd cofrestru taladwy gan yr hawliwr (ac felly gan y gwrthapelydd):
• Ceisiadau hyd at £1000 = £20.00 + TAW (£23.54)
• Ceisiadau rhwng £1001 a £5000 = £25.00 + TAW (£29.37)

Sieciau yn daladwy i "Sefydliad Siartredig y Cyflafareddwyr".